

## MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

### Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wybod yn y lle cyntaf fod Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 wedi cael eu cyhoeddi ar 2 Tachwedd 2018, o dan y weithdrefn negyddol. Mae copi o'r datganiad ysgrifenedig i'w weld yma:

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/ws-ld11808/ws-ld11808-w.pdf>

3. Cafodd Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 16 Ionawr 2019. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/ID8bF9CU>

#### Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

4. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, ynghyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd o dan bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019.
5. Wrth fynd i'r afael â'r methiannau a gwendidau eraill, mae'r OS yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a ganlyn:
  - Deddf Amaethyddiaeth 1970

#### Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

6. Mae'r diwygiad a wneir gan Reoliadau 2019 yn gwneud newid technegol i adran 74A(4) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gywir ac yn effeithiol ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE.
7. Mae'r newid a nodir ym mharagraff 5 yn ymwneud â phwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

8. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bynciau ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol ar gyfer Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag amaethyddiaeth (sy'n cynnwys gwrteithiau a bwyd anifeiliaid).

### **Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriadau dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

### **Lesley Griffiths AC**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

18 Ionawr 2019